20
26



bangor.ac.uk/cy

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Dathliadau Graddio

Dosbarth 2026

**Diwrnod i ddathlu eich cyrhaeddiad, gyda'r bobl a'ch helpodd ar hyd y ffordd**



# Croeso gan yr Is-Ganghellor

## Llongyfarchiadau!



# Twf a Thrawsnewid

**Mae graddio'n garreg filltir arbennig iawn, ac rydym yn falch o ddathlu chi heddiw, a phopeth rydych wedi'i gyflawni ym Mhrifysgol Bangor.**

Mae eich amser yma wedi bod yn daith llawn twf, darganfyddiad a thrawsnewid. Rydych wedi herio eich hunain, wedi datblygu sgiliau newydd ac wedi ehangu eich gorwelion, a dylech fod yn hynod falch o ba mor bell rydych wedi dod. Heddiw hefyd yw'r amser i gydnabod aelodau eich teulu, ffrindiau a chefnogwyr sydd wedi eich annog, wedi credu ynoch chi ac wedi rhannu'r daith gyda chi.

Fel Is-Ganghellor, mae'n fraint gweld ein myfyrwyr yn cyrraedd y garreg filltir hon a dathlu gallu addysg i agor meddyliau, meithrin hyder a llywio dyfodol unigolion. Mae ein seremonïau graddio'n dod â chymuned ein Prifysgol ynghyd, ac mae'n bleser rhannu'r achlysur hwn gyda phawb sydd wedi cefnogi ein graddedigion ar hyd y ffordd.

Pa bynnag lwybr a ddewiswch, gobeithiwn y byddwch yn gadael Prifysgol Bangor gyda'r wybodaeth, y profiad a'r hyder i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae eich astudiaethau wedi eich helpu i ddatblygu'r sgiliau, y mewnwelediad a'r cysylltiadau a fydd yn eich cefnogi wrth i chi gymryd eich camau nesaf mewn bywyd a gwaith.

Nid yw eich perthynas â Phrifysgol Bangor yn dod i ben heddiw. Rydych bellach yn rhan o'n cymuned fyd-eang o gyn-fyfyrwyr, sy'n rhwydwaith gydol oes o raddedigion sy'n parhau i gefnogi, ysbrydoli a hyrwyddo ei gilydd ledled y byd. Edrychwn ymlaen at aros mewn cysylltiad â chi ac i ddathlu eich llwyddiannau yn y dyfodol.

Ar ran ein holl staff, hoffwn gynnig fy llongyfarchiadau gwresog a dymuniadau gorau i chi am bopeth sydd o'ch blaenau.

**Yr Athro Edmund Burke**
**Is-Ganghellor**

# Prifysgol Bangor:
# Y Gorffennol, Y Presennol a'r Dyfodol

**Ers croesawu ei myfyrwyr cyntaf ym 1884, mae Prifysgol Bangor wedi tyfu ochr yn ochr â'i chymuned ac wedi'i llunio gan y bobl sydd wedi astudio, gweithio a byw yma. Mae pob cenhedlaeth o fyfyrwyr wedi cyfrannu at lunio'r Bangor rydych yn graddio ohoni ac heddiw, rydych yn dod yn rhan o'r stori barhaus honno.**

Mae ein hymchwil, sydd gyda'r gorau yn y byd, yn chwilio am atebion i rai o broblemau mwyaf heriol cymdeithas – o wella iechyd a lles a diogelu'r amgylchedd i ddarganfod atebion ynni carbon isel a darparu atebion newydd i hyrwyddo'r economi 5G byd-eang.

Mae ein haddysgu a'n hymchwil yn cael eu gyrru gan nod gyffredin: gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, yn lleol ac yn fyd-eang, drwy wybodaeth, creadigrwydd a chydweithio.

## 1884-1903

### 1884
Wedi'i hariannu'n rhannol gan chwarelwyr a ffermwyr, agorodd Prifysgol Bangor ei drysau am y tro cyntaf ar 18 Hydref 1884, wedi'i lleoli yn hen dafarn y goets fawr, y Penrhyn Arms.

### 1893
Daeth Prifysgol Cymru Bangor yn un o dri choleg cyfansoddol gwreiddiol Prifysgol Cymru.

### 1903
Rhoddodd Dinas Bangor safle 10 erw ym Mhenrallt uwchben y ddinas ar gyfer adeilad newydd i'r coleg, a chasglwyd swm sylweddol o arian gan bobl leol tuag at y gost o'i adeiladu.

## 1907-1939

### 1907
Gosodwyd carreg sylfaen safle presennol Prif Adeilad y Brifysgol gan Edward VII ar 9 Gorffennaf 1907.

### 1911
Agoriad swyddogol Prif Adeilad y Brifysgol, a adeiladwyd gan Henry T. Hare, pensaer o Lundain; ynghyd â rhai o adeiladau'r celfyddydau a gwyddorau cymdeithas a rhan o'r llyfrgell.

### 1926
Symudodd adrannau gwyddoniaeth y Brifysgol i adeiladau newydd a phwrpasol a adeiladwyd â chymorth arian a godwyd gan Gyngor Cofeb Arwyr Gogledd Cymru, a fu hefyd yn goruchwylio'r gwaith o adeiladu'r Porth Coffa (oddi ar Ffordd Deiniol) ym 1923, i gofio'r rhai o Ogledd Cymru a gollodd eu bywydau yn y rhyfel.

### 1939
Ar 23 Awst 1939, wythnos cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, dechreuodd yr Oriel Genedlaethol yn Llundain gludo'r gweithiau celf mwyaf gwerthfawr i Fangor, gan fod pryder y byddai bomiau'n cael eu gollwng ar Lundain. Cafodd mwy na 500 o baentiadau, gan gynnwys gweithiau gan Botticelli, Rubens a Rembrandt, eu storio yn y brifysgol yn Neuadd Prichard-Jones.

1949-1967

1970-2014

2015-2025



## 1949
Ar 28 Ebrill 1949, dyfarnwyd Doethuriaeth er Anrhydedd mewn Cerddoriaeth i'w Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II, neu Ei Mawrhydi'r Dywysoges Elizabeth fel yr oedd ar y pryd, gan ei Fawrhydi'r Tywysog Philip, oedd newydd gael ei wneud yn Ganghellor y Brifysgol.

## 1952
Sefydlwyd y corff Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, sef cangen wirfoddoli Undeb y Myfyrwyr, sy'n cefnogi projectau cymunedol yn ardal Bangor a'r cyffiniau.

## 1960au
Roedd y Brifysgol yn rhan o'r ehangu cyffredinol mewn addysg uwch yn y DU yn dilyn Adroddiad Robbins, gyda nifer o adrannau newydd ac adeiladau newydd.

## 1967
Ymwelodd y Beatles â'r Coleg Normal, ar gyfer y ddarlith ar Fyfyrdod Trosgynnol gan y Maharishi Mahesh Yogi. Bu'r ymweliad yn ddyddiad hollbwysig yn hanes y grŵp, gan mai yma yr oeddent pan ddaeth y newyddion am farwolaeth eu rheolwr, Brian Epstein.

## 1970au
Roedd protestiadau myfyrwyr yn y 1970au yn canolbwyntio ar alwadau i ehangu swyddogaeth y Gymraeg. Yn sgil ymgyrch yn erbyn polisi iaith y coleg gan Gymdeithas y Cymric, paentiwyd sloganau yn Gymraeg ar waliau'r Prif Adeilad, gan arwain at nifer o fyfyrwyr yn cael eu hatal o'u hastudiaethau.

## 1974
Arweiniodd y protestiadau a diarddel myfyrwyr at sefydlu Undeb Myfyrwyr Colegau Bangor (UMCB). Sefydlwyd Neuadd Gymraeg i fyfyrwyr y Brifysgol, sef Neuadd John Morris-Jones.

## 1977
Cwblhawyd y broses o uno'r Brifysgol gyda Choleg y Santes Fair.

## 1996
Cwblhawyd y broses o uno'r Brifysgol gyda'r Coleg Normal.

## 2003
Lansiwyd Storm FM, gorsaf radio swyddogol myfyrwyr Prifysgol Bangor, gan ddechrau darlledu ym mis Mawrth 2003.

## 2007
Dechreuodd y Brifysgol ar y broses o newid ei henw i Brifysgol Bangor, gan gynnwys rhoi pwerau dyfarnu graddau i Brifysgol Bangor ei hun.

## 2014
Llofnodwyd cytundeb gan Brifysgol Bangor i greu coleg newydd yn Tsieina; Coleg Bangor yn Tsieina (BCC).

## 2015
Agorwyd Pontio, y Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi, gyda thua 1000 o bobl yn mwynhau Diwrnod Croeso yn y ganolfan.

## 2018
Cwblhawyd M-SParc, parc gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf Cymru gwerth £20m sy'n eiddo i'r Brifysgol ar Ynys Môn.

## 2021
Prifysgol Bangor yn dathlu 100 mlynedd o gerddoriaeth gyda rhaglen flwyddyn o hyd o ddigwyddiadau, yn nodi 100 mlynedd ers penodi'r cyfansoddwr E.T. Davies yn Gyfarwyddwr Cerdd llawn-amser cyntaf y brifysgol.

## 2022
Mae Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil Llywodraeth y DU yn gosod Bangor yn y 30 Uchaf trwy'r Deyrnas Unedig am effaith gymdeithasol ei hymchwil. Ystyrir bod 85% o'n hymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol.

## 2023
Sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru newydd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2024
Prifysgol Bangor yn dathlu 140 mlynedd.


## 2025
Derbyniodd y Brifysgol y rhodd fwyaf yn ei hanes, sef rhodd o £10.5 miliwn gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay i sefydlu Ysgol Fusnes Albert Gubay.

# Persbectif **Unigryw**

**Mae'r Prif Adeilad yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r Brifysgol a chafodd ei ddisgrifio gan Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, 'yn bensaernïol yn un o adeiladau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol y cyfnod ym Mhrydain'.**

Adeiladwyd rhwng 1907-11 gan Henry T. Hare, a ddewiswyd yn dilyn cystadleuaeth bensaernïol a gynhaliwyd gan y Brifysgol, ar ôl caffael y safle ym 1903. Gosodwyd y garreg sylfaen gan Edward VII ar 9 Gorffennaf 1907, a chynhaliwyd yr agoriad swyddogol ar 14 Mehefin 1911.

Mae'r adeilad mewn arddull 'Tuduraidd Golegol' ac mae wedi'i seilio ar brifysgolion Rhydychen, Caergrawnt a Durham, gyda dylanwadau'r mudiad Celf a Chrefft. Mae'r adeilad wedi ei ddylunio o amgylch dau gwadrangl: y Prif Gwadrangl a'r Cwadrangl Mewnol, sy'n agored i'r cyhoedd ar Ddiwrnod Graddio ac ar gyfer digwyddiadau arbennig.







# Neuadd Prichard-Jones

Mae Neuadd Prichard-Jones, lle cynhelir y seremoni raddio heddiw, wedi'i henwi ar ôl Syr John Prichard-Jones, dilledydd o deulu cyffredin ar Ynys Môn a wnaeth ei ffortiwn yn Stryd Regent yn Llundain fel rheolwr gyfarwyddwr siopau mawr Dickens and Jones, a brynwyd gan Harrods yn 1914.



Cyfrannodd Syr Prichard-Jones £15,000 tuag at ei hadeiladu, a chafodd ei annog i gynorthwyo'r coleg yn y ffordd hon gan David Lloyd George, un o brif gefnogwyr y Brifysgol, a oedd yn Ganghellor y Trysorlys bryd hynny, cyn mynd ymlaen i ddod yn Brif Weinidog y Deyrnas Unedig.

Nid yw tu mewn y neuadd wedi newid llawer ers iddi gael ei hagor yn 1911. Mae'r tariannau sy'n addurno brig y muriau'n cynrychioli hen fwrdeistrefi Gogledd Cymru a gosodwyd yr organ bib yn dilyn cau eglwys leol y Tabernacl ddechrau'r 1970au.

Mae'r electroganwyllyron (siandelïers trydan) yn dal i hongian o'r nenfwd, ac mae'r waliau wedi'u gorchuddio â'r paneli wenscot gwreiddiol. Caiff ei defnyddio'n aml gan y Brifysgol a'r gymuned, ac mae cenedlaethau lawer o fyfyrwyr wedi sefyll arholiadau, dawnsio a bod mewn seremonïau graddio yma. Mae gan y neuadd hefyd draddodiad hir o gynnal adloniant cerddorol i Ogledd Cymru, gyda pherfformwyr yn cynnwys Syr Bryn Terfel ac Aled Jones MBE.

Heddiw, Neuadd Prichard-Jones yw lleoliad un o ddigwyddiadau pwysicaf eich amser ym Mhrifysgol Bangor.

# Eich Seremoni Raddio

Mae graddio yn foment i gydnabod eich gwaith galed, eich penderfyniad a'ch llwyddiant.

Gallwn yn awr gyda balchder mawr weld ein graddedigion yn cymryd eu camau cyffrous nesaf i'r byd, fel y mae llawer o rai eraill wedi'i wneud o'u blaen.

Pa un a ydych yn graddio, yn berthynas neu'n gyfaill i rywun sy'n graddio,  mae heddiw yn ddathliad cofiadwy i bawb sydd yma.

**Llongyfarchiadau!**



## Yr Orymdaith

Mae pob seremoni'n dechrau gyda gorymdaith. Fe'i harweinir gan Brif Farsial – sef uwch aelod o staff gweinyddol y Brifysgol. Ei waith yw gofalu bod y seremoni yn mynd yn ei blaen yn ddidrafferth. Yn dilyn y Prif Farsial yn yr orymdaith ceir sawl adran, pob un yn cael ei harwain gan Farsial(iaid), sydd hefyd yn swyddogion yn y Brifysgol:

### Adran 1:
Staff academaidd a phobl leol flaenllaw

### Adran 2:
Penaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid adrannau Gwasanaethau Proffesiynol canolog

### Adran 3:
Uwch swyddogion y Brifysgol, yn cynnwys y Dirprwy Is-gangellorion a'r Cyflwynydd

### Adran 4:
Cymrodyr er Anrhydedd a'u Cyflwynwyr

### Adran 5:
Gorymdaith y Canghellor, yn gynnwys yr Is-Ganghellor a'r Canghellor (neu ei ddirprwy)

**Arweinir rhan olaf yr orymdaith, sef gorymdaith y Canghellor, gan Gludydd y Brysgyll, sydd hefyd yn aelod uwch o staff gweinyddol y Brifysgol.**

# Y Canghellor

## Canghellor Prifysgol Bangor yw'r academydd a'r ffisegydd, yr Athro Syr Robin Williams.


Y Canghellor yw pennaeth seremonïol y brifysgol ac un o'i llysgenhadon amlycaf. Gweithiai gyda'r Is-Ganghellor ac uwch swyddogion eraill i hyrwyddo llwyddiannau'r brifysgol, gartref a thramor.


Graddiodd Syr Robin ym Mhrifysgol Bangor ac mae'n eiriolwr cryf dros natur ddwyieithog y brifysgol. Penodwyd i'r swydd ym mis Tachwedd 2022.

Mae Syr Robin yn awdurdod ym maes lled-ddargludyddion ac mae ei ymchwil wedi bod yn bwysig yn natblygiad electroneg ddigidol a'r newidiadau pellgyrhaeddol ym maes cyfrifiadura a chyfathrebu. Gan weithio'n agos gyda diwydiannau ledled y byd, datblygodd ddulliau newydd o astudio lled-ddargludyddion ac roedd yn un o'r rhai cyntaf i ddefnyddio ymbelydredd synchrotron i astudio arwynebau solidau.

Cafodd ei urddo'n farchog yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd Brenhines Elizabeth II yn 2019 am wasanaethau i addysg uwch, ymchwil a'r Gymraeg, ac mae Syr Robin wedi gwasanaethu ar lawer o gyrff polisi a chyllido yn rhyngwladol ac yn y Deyrnas Unedig ac ar grwpiau cynghori gweinidogol ar ddatblygiad economaidd ac addysg yng Nghymru.

Mae'n gyn-gadeirydd Cyngor Ymgynghorol Gwyddoniaeth Cymru. Roedd yn aelod o Gyngor Ymgynghorol Arloesi Cymru ac yn un o gymrodyr sylfaenol Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Dyfarnwyd Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol 2022 i Syr Robin am ei gyfraniad gydol oes at wyddoniaeth.





# Trefn y Gweithgareddau

**Cerddoriaeth**

Cyn i'r seremoni ddechrau bydd rhaglen o gerddoriaeth, gan orffen gyda cherddoriaeth yr orymdaith, sy'n dynodi dechrau'r seremoni.

Cerddoriaeth yr orymdaith: John Stanley – 'Trumpet Voluntary'

**Yr orymdaith**

Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll pan mae'r orymdaith yn dod i mewn i'r neuadd. Dyma ddechrau'r seremoni yn ffurfiol.

**Rhagarweiniad**

Mae'r seremoni'n agor gydag adroddiad gan aelod o'r staff academaidd o ddarn o gerdd, 'Y Coleg ar y Bryn' gan y diweddar Gwyn Thomas. Darllenir y darn yn Gymraeg a Saesneg. Roedd Gwyn Thomas, a fu farw yn 2016, yn gyn Athro y Gymraeg yn y Brifysgol, ac roedd yn Fardd Cenedlaethol Cymru o 2006 tan 2008. Comisiynwyd y gerdd gan Ei Fawrhydi Brenin Charles III, neu Dywysog Cymru fel yr oedd ar y pryd, yn 2007 i ddathlu canmlwyddiant gosod carreg sylfaen Prif Adeilad y Celfyddydau.

**Y penderfyniad**

Mae'r Prif Gyflwynydd, sy'n academydd uwch, yn darllen y penderfyniad yn Gymraeg a Saesneg sy'n rhoi awdurdod i'r Is-Ganghellor i ddyfarnu graddau, ac mae hefyd yn cyflwyno pob grŵp o fyfyrwyr ar gyfer eu gwahanol raddau a diplomâu â'r geiriau: Anrhydeddus Is-Ganghellor, cyflwynaf i chi'r disgyblion hyn a enillodd radd (… teitl y radd …) mewn (.. enw/enwau'r pwnc/pynciau a astudiwyd …)



Delwedd o fyfyrwyr yn graddio.

**Cyflwyno'r myfyrwyr**
Mae Cyflwynydd, Dirprwy Is-Ganghellor yr Adran berthnasol neu uwch aelod arall o'r staff academaidd fel rheol, yn cyflwyno myfyrwyr i'r Is-Ganghellor trwy ddarllen eu henwau llawn. Mae pob myfyriwr yn ei dro yn croesi'r llwyfan i gael eu cyfarch gan yr Is-Ganghellor a'r Canghellor (neu ei ddirprwy).

**Derbyn myfyrwyr i raddau**
Bydd yr Is-Ganghellor yn derbyn grwpiau o fyfyrwyr i'w graddau yn ffurfiol trwy ddweud: Cadarnhaf eich bod yn derbyn (lefel gradd) a holl freiniau'r radd honno. Yna bydd y Canghellor (neu ei ddirprwy) yn cyfarch y graddedigion trwy ddweud: Llongyfarchiadau ar dderbyn eich gradd heddiw. Yna ailadroddir y drefn hon ar gyfer pob grŵp o fyfyrwyr. Cyflwynir y rhai a enwir yn eu grwpiau priodol yn y rhaglen i dderbyn eu graddau mewn absentia.

**Egwyl**
Tua hanner ffordd drwy'r seremoni, bydd egwyl gerddorol fer.

**Gwobrau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr**
Mewn rhai seremonïau graddio bydd y Brifysgol yn cyflwyno Gwobr Addysg a Phrofiad Myfyrwyr i aelod o staff y bernir ei fod/bod wedi gwneud cyfraniad arbennig i addysgu a/neu i gefnogi dysgu. Enwebir rhai i dderbyn y Gwobrau hyn gan y rhai sydd yn y sefyllfa orau i farnu – y myfyrwyr eu hunain.

**Cymrodoriaethau a Graddau er Anrhydedd**
Tuag at y diwedd mewn rhai seremonïau graddio cyflwynir Cymrodoriaethau a Graddau er Anrhydedd gan y Brifysgol i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig yn eu gwahanol feysydd ac y mae'r Brifysgol yn dymuno eu hanrhydeddu. Cyflwynir y rhain gan yr Is-Ganghellor.

**Anerchiad cloi**
Bydd y seremoni yn cloi gydag anerchiad i'r graddedigion a'r gwesteion newydd.

**Hen Wlad Fy Nhadau**
**(anthem genedlaethol Cymru)**
Gweler y geiriau drosodd.

**Yr orymdaith yn gadael y neuadd**
Gofynnir i'r gynulleidfa sefyll pan fydd cerddoriaeth yr orymdaith yn dechrau ac wrth i'r orymdaith adael y neuadd.

Cerddoriaeth yr Orymdaith:
F. Mendelssohn – 'War March of the Priests'

# Anthem Epig a'i Tharddiad

Cyfansoddwyd tôn a geiriau'r gân a fabwysiadwyd yn ddiweddarach fel ein hanthem genedlaethol ym mis Ionawr 1856. Roedd yn ganlyniad cydweithio rhwng tad a mab o Bontypridd: Evan James, awdur y geiriau, a'i fab James James, cyfansoddwr y dôn.

Perfformiwyd y gân am y tro cyntaf yn ysgoldy Capel Tabor (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Maesteg, gan Elisabeth John, Pontypridd, ac yn fuan, roedd y gân yn boblogaidd yn ardal Pontypridd.

Daeth yn fwy adnabyddus ar ôl Eisteddfod Llangollen 1858. Fe'i cyhoeddwyd mewn casgliad poblogaidd o ganeuon Cymreig, a daeth yn ffefryn mewn eisteddfodau ac achlysuron gwladgarol eraill. Yn raddol daeth Hen Wlad Fy Nhadau yn anthem genedlaethol Cymru - er nad oes ganddi statws swyddogol hyd heddiw.




## Hen Wlad Fy Nhadau

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mâd,
Tros ryddid gollasant eu gwaed.

**Cytgan:**
Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r heniaith barhau.





# Y Brysgyll

Y Brysgyll yw symbol awdurdod y Brifysgol ac yn y seremoni mae'n mynd o flaen yr Is-Ganghellor bob amser.

Comisiynwyd y Brysgyll gan Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr i goffáu canmlwyddiant y Brifysgol ym 1984. Ar frig y Brysgyll ceir tarian gydag arfbais y Brifysgol arni, a gwnaed ei ben o lechfaen Bethesda. Mae hyn i gofio haelioni'r chwarelwyr lleol a gyfrannodd ran o'u cyflogau wythnosol yn nechrau'r 1880au tuag at sefydlu'r Brifysgol.

Mae'r ddwy ffon eboni sy'n cael eu cario gan y marsialiaid yn rhodd gan y pumed Arglwydd Kenyon a gwblhaodd 36 mlynedd o wasanaeth fel Llywydd y Brifysgol yn 1981. Ar ben y ffyn ceir tariannau ac arnynt arfbeisiau'r Brifysgol a'r teulu Kenyon.

Mae Brysgyll Maer Bangor hefyd i'w gweld ochr yn ochr â Brysgyll y Brifysgol, gan adlewyrchu'r berthynas agos a pharhaus rhwng y Brifysgol a'r ddinas.

# Graddau er Anrhydedd

## Haf 2026

Mae ein Cymrodoriaethau a'n Graddau er Anrhydedd yn ddyfarniadau mawr eu bri a roddwn i unigolion nodedig sydd â chysylltiad â'r Brifysgol, neu â Chymru, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol yn eu gwahanol feysydd. Mae'r dyfarniadau hyn yn cydnabod unigolion y mae eu gwaith yn adlewyrchu'r gwerthoedd a'r uchelgais yr ydym yn gobeithio y bydd ein graddedigion yn dwyn ymlaen gyda nhw.



### Yr Athro Emeritws Piers Chapman - Doethur er Anrhydedd mewn Gwyddoniaeth (DSc er anrhydedd)

**Cemegydd morol ac eigionegydd - am gyfraniad at Wasanaeth Cyhoeddus**

Mae Piers Chapman yn gemegydd morol ac eigionegydd uchel ei barch yn rhyngwladol y mae ei yrfa'n cwmpasu ymchwil, arweinyddiaeth a chydweithio byd-eang mewn eigioneg. Graddiodd o Brifysgol Bangor gyda BSc mewn Cemeg ym 1971 ac yn ddiweddarach cwblhaodd ddoethuriaeth mewn Bioleg Môr ym 1983, gan sefydlu cysylltiad gydol oes â'r Brifysgol. Mae wedi gweithio yn y Deyrnas Unedig, De Affrica a Gwlff Mecsico, gan gyhoeddi'n helaeth ar gemeg forol, rhanbarthau ocsigen isel a defnyddio olrheinwyr cemegol mewn eigioneg graddfa fawr. Bu ganddo swyddi uwcharweiniol ym Mhrifysgol Texas A and M, gan gynnwys Pennaeth yr Adran Eigioneg, a chyfarwyddodd raglenni ymchwil mawr yno ac ym Mhrifysgol Talaith Louisiana. Mae'n Athro Emeritws bellach, a dychwelodd i'r Deyrnas Unedig yn 2023, gan adael gwaddol rhyngwladol parhaol mewn gwyddor forol ac arfordirol.



### Dr Elin Haf Davies – Doethur er Anrhydedd mewn Gwyddoniaeth (DSc er Anrhydedd)

**Clinigydd, entrepreneur ac eiriolwr dros iechyd plant - am gyfraniad at Wasanaeth Cyhoeddus**

Mae Dr Elin Haf Davies yn glinigydd, gwyddonydd ac entrepreneur o Gymru sy'n cael ei chydnabod am drawsnewid ymchwil a threialon clinigol ym maes clefydau pediatrig a phrin. Magwyd Elin ar fferm yn Y Parc ger y Bala, a dechreuodd ar ei gyrfa fel nyrs plant yn Ysbyty Great Ormond Street, lle ffurfiwyd ei hymrwymiad i wella gofal i blant sy'n ddifrifol wael. Aeth rhagddi i astudio niwrowyddoniaeth a dulliau ymchwil, gan gwblhau doethuriaeth yng Ngholeg Prifysgol Llundain, ac yn ddiweddarach gweithiodd yn Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop yn cefnogi cyflwyno rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch meddyginiaeth bediatreg. Yn 2015 sefydlodd Aparito, cwmni technoleg feddygol sy'n arloesi mewn treialon clinigol a datganoledig sy'n canolbwyntio ar y claf, yn enwedig ar gyfer cleifion sydd â chlefydau prin. Cafodd Aparito ei brynu gan Eli Lilly and Company yn 2024. Mae Elin yn anturiaethwraig ac yn awdures ddawnus, ac mae hi wedi rhwyfo a hwylio ar draws y cefnforoedd bedair gwaith i godi arian at elusennau iechyd plant. Yn gynharach eleni, fel cyd-sylfaenydd Hyder Ventures, ymunodd â Phrifysgol Bangor i gyflwyno'r Hackathon Hyder cyntaf, gan fentora staff a myfyrwyr i ddatblygu mentrau arloesol sy'n mynd i'r afael â heriau ym maes iechyd a'r amgylchedd.



Llun drwy garedigrwydd: Eivin Hansen

## Juno Dawson – Doethur er Anrhydedd mewn Llên (DLitt er Anrhydedd)

**Awdures a sgrin-awdures Brydeinig - am gyfraniad at ddiwylliant, cerddoriaeth, iaith a'r celfyddydau yng Nghymru.**

Mae Juno Dawson yn awdures a sgrin-awdures Brydeinig a raddiodd mewn seicoleg o Brifysgol Bangor. Ar ôl graddio, dechreuodd ei gyrfa fel athrawes cyn sefydlu ei hun fel llais blaenllaw ym myd ffuglen i oedolion ifanc. Ei nofel gyntaf oedd Hollow Pike a dilynwyd hyn gan lyfrau sydd wedi ennill sylwadau clodwiw gan feirniaid llenyddol ynghyd â gwobrau di-ri, gan gynnwys Say Her Name, Clean, Meat Market. Daeth ei nofel gyntaf i oedolion, Her Majesty's Royal Coven, ar frig rhestr y Sunday Times o'r nofelau sy'n gwerthu orau. Cydnabyddir ei gwaith am ei elfen storïol ddychmygus a'i harchwiliad tringar o hunaniaeth, gwydnwch a chyfiawnder cymdeithasol. Caiff gweithiau ffeithiol Juno, This Book is Gay a What's the T?, eu defnyddio'n helaeth fel adnoddau addysgol mewn ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau cymorth LHDTC+ yn rhyngwladol. Mae hi hefyd yn newyddiadurwraig, darlledwraig, sgriptwraig ac eiriolwr cyhoeddus uchel ei pharch, y mae ei gwaith wedi cael dylanwad parhaol ar addysg gynhwysol, cynrychiolaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol.



Llun drwy garedigrwydd: Bindu Devani

## Atul Devani - Doethur er Anrhydedd mewn Gweinyddu Busnes (DBA er Anrhydedd)

**Entrepreneur - am wasanaeth i Fusnes ac Entrepreneuriaeth**

Mae Atul Devani yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Bangor, lle dyfarnwyd gradd BSc anrhydedd dosbarth cyntaf iddo mewn Peirianneg Electronig ym 1989. Mae wedi datblygu gyrfa nodedig fel entrepreneur technoleg, buddsoddwr ac arweinydd bwrdd ym meysydd telathrebu, meddalwedd, iechyd digidol a chyfalaf menter. Sefydlodd United Clearing plc, busnes cyfathrebu symudol arloesol oedd â buddsoddiadau arnawf ar y farchnad fuddsoddi amgen ac a brynwyd yn ddiweddarach, a bu ganddo swyddi gweithredol uwch mewn cwmnïau diwifr a thechnoleg byd-eang. Mae hefyd wedi cadeirio a gwasanaethu ar fyrddau nifer o Ymddiriedolaethau Cyfalaf Menter a restrir yn Llundain, gan gynnwys ei swydd bresennol fel Cadeirydd Foresight Ventures VCT plc, sy'n cefnogi busnesau yn y Deyrnas Unedig sy'n tyfu'n gyflym. Gwasanaethodd Atul fel Aelod annibynnol o Gyngor Prifysgol Bangor o 2020 i 2024 ac mae'n parhau i fod â chysylltiadau agos â'r Brifysgol fel Cyfarwyddwr M-SParc, parc gwyddoniaeth y Brifysgol, gan gyfrannu at arloesedd, menter a datblygiad economaidd yng Ngogledd Cymru.



## Mair Wynn Hughes - Doethur er anrhydedd mewn Llên (DLitt er Anrhydedd)

**Awdures Gymraeg - Cyfraniad at ddiwylliant, iaith, cerddoriaeth a chelfyddydau Cymru**

Dechreuodd Mair Wynn Hughes, a fu'n gyn-athrawes ysgol ym Mhentraeth, Ynys Môn, ysgrifennu i fynd i'r afael â'r diffyg llyfrau Cymraeg i blant oedd ar gael i'w disgyblion. Cyhoeddodd ei llyfr cyntaf ym 1967. Dyna ddechrau ar greu corff sylweddol o waith, gan gyhoeddi mwy na 100 o straeon y mae cenedlaethau o blant wedi'u mwynhau gartref ac yn yr ysgol. Mae ansawdd ac apêl ei hysgrifennu wedi cael cydnabyddiaeth eang. Enillodd Wobr Tir na n-Og, y gwobrau hynaf am lenyddiaeth plant yng Nghymru, bedair gwaith a derbyniodd Wobr Mary Vaughan Jones Cyngor Llyfrau Cymru am ffuglen plant yn 2006. Yn 2021 cafodd ei nofel O'r Tywyllwch ei hailgyhoeddi yn y gyfres Gorau'r Goreuon, gan gydnabod ei gwerth llenyddol parhaol. Wedi'i geni a'i magu ym Mryncir a'i haddysgu yma ym Mangor yn yr hyn a elwid bryd hynny yn y Coleg Normal, mae hi wedi byw a gweithio ar hyd ei hoes yng Ngogledd Cymru. Yn 2023, yn 92 oed, cyhoeddodd Mair ei nofel gyntaf i oedolion, Y Bocs Erstalwm, gan ymestyn ymhellach waddol llenyddol nodedig.



Llun drwy garedigrwydd TED

## Llion Jones – Doethur er Anrhydedd mewn Gwyddoniaeth (DSc er Anrhydedd)

**Gwyddonydd cyfrifiadurol ac ymchwilydd deallusrwydd artiffisial o Gymru – am ysgolheictod ac arloesedd rhagorol**

Mae Llion Jones yn wyddonydd cyfrifiadurol y mae ei ymchwil wedi cael dylanwad mawr ar ddatblygiad deallusrwydd artiffisial modern. Roedd yn un o wyth peiriannydd Google a oedd yn gyfrifol am y papur nodedig a gyhoeddwyd yn 2017 Attention Is All You Need, a gyflwynodd y model dysgu dwfn Tranwsnewidiol ar gyfer prosesu iaith naturiol ac sydd bellach yn sail i lawer o systemau deallusrwydd artiffisial blaenllaw heddiw. Ar ôl ei gyfnod yn Google, cyd-sefydlodd Sakana AI yn Tokyo, lle mae'n parhau i arwain ymchwil arloesol i alluoedd deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol. Cyfrannodd Llion at gynhadledd Digidol 24 yn M-SParc, parc gwyddoniaeth Prifysgol Bangor, ac mae wedi dangos diddordeb brwd yng ngwaith tîm Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr y Brifysgol, yn enwedig ym maes datblygu technolegau iaith uwch ar gyfer y Gymraeg. Mae ei waith wedi helpu i lunio sut y gall deallusrwydd artiffisial resymu, ysgrifennu a chreu, gyda'r effaith yn cael ei theimlo ledled y byd, ac mae'n adlewyrchu cyfuniad o ymchwil flaenllaw ac ymgysylltiad parhaus â swyddogaeth gynyddol Cymru mewn arloesedd digidol.



## Gwen Parry Jones OBE FREng – Doethur er anrhydedd mewn Gwyddoniaeth (DSc er Anrhydedd)

**Peiriannydd Niwclear - am ysgolheictod ac arloesi eithriadol**

Mae Gwen Parry-Jones yn gyn-fyfyrwraig o Brifysgol Bangor, lle cwblhaodd MA mewn Bancio, Yswiriant a Chyllid ym 1990, ac mae bellach yn arweinydd uwch yn y sector niwclear yn y Deyrnas Unedig. Hyd at fis Medi 2025, hi oedd Prif Swyddog Gweithredol Great British Energy – Nuclear, a bu cyn hynny yn Brif Swyddog Gweithredol Magnox Ltd. Yn gynharach yn ei gyrfa, roedd hi'n Gyfarwyddwr Datblygu Busnes yn Horizon, gan arwain gwaith i ddatblygu gorsafoedd ynni niwclear newydd yn Wylfa ac Oldbury. Dechreuodd Gwen ei gyrfa ym 1989 fel ffisegydd adweithyddion yn atomfa'r Wylfa, gan symud ymlaen i fod yn uwch reolwr ac yn aelod o'r bwrdd yn British Energy ac yn EDF Energy yn y Deyrnas Unedig a Chanada. Hi oedd y fenyw gyntaf i fod yn gyfarwyddwr gorsaf bŵer niwclear sifil yn y Deyrnas Unedig, yn Sizewell B, ac yn ddiweddarach hi oedd y fenyw gyntaf i fod yn gyfarwyddwr yn Heysham 1. Mae Gwen yn Gymrawd o'r Sefydliad Ffiseg, yn Gymrawd er Anrhydedd o'r Sefydliad Niwclear ac yn Gymrawd o'r Academi Beirianneg Frenhinol. Gwen yw noddwr y fenter menywod yn y diwydiant niwclear, a dyfarnwyd OBE iddi am wasanaethau i wyddoniaeth a thechnoleg yn 2015.




## Yr Athro Stephen G Riley - Doethur er Anrhydedd mewn Meddygaeth (MD er Anrhydedd)

**Clinigydd ac arweinydd cenedlaethol mewn addysg feddygol - am gyfraniad at Wasanaeth Cyhoeddus**

Mae'r Athro Stephen G Riley yn glinigydd uwch ac addysgwr meddygol y mae ei arweinyddiaeth wedi bod yn allweddol yn natblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Fel Pennaeth Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, mae wedi darparu arweinyddiaeth genedlaethol uchel ei pharch mewn addysg feddygol, gan hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac arwain yr Ysgol o ddyfarniad Efydd Athena Swan i ddyfarniad Arian. Graddiodd a hyfforddodd

Stephen yng Nghymru mae'n glinigydd sy'n parhau i ymarfer, gydag ymrwymiad hirdymor i'r Gwasanaeth Iechyd, atebolrwydd cymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae wedi bod yn ganolog i ddatblygiadau addysg feddygol gydweithredol rhwng Prifysgolion Caerdydd a Bangor ers 2018, gan gynnwys y rhaglen Prentisiaethau Clinigol mewn Ardaloedd Gwledig a drefnir gan Brifysgol Caerdydd a'r cydweithrediad ar Gwricwlwm Gogledd Cymru ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae bellach yn Gadeirydd y Cyngor Ysgolion Meddygol sy'n hyrwyddo cydweithio rhwng Ysgolion Meddygol y pedair gwlad, y Gwasanaeth Iechyd a'r Llywodraeth mewn addysg ac ymchwil feddygol. Drwy bartneriaeth â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor ac arbenigwyr rhyngwladol, mae wedi helpu i lunio dull Cymru gyfan o ymdrin ag addysg feddygol gydag effaith barhaol ar gymunedau ledled Cymru a thu hwnt.



**Llun drwy garedigrwydd:** Mark Lloyd

## Philip Snow – Doethur er Anrhydedd mewn Llên (DLitt er Anrhydedd)

### Awdur ac artist bywyd gwyllt - cyfraniad at ddiwylliant, iaith, cerddoriaeth a chelfyddydau Cymru

Mae Philip Snow yn artist ac awdur bywyd gwyllt uchel ei barch sydd wedi cyfrannu at gelf bywyd gwyllt, cadwraeth a dealltwriaeth gyhoeddus o'r byd naturiol yng Nghymru a thu hwnt. Ganwyd Philip yn Swydd Gaer, ac mae wedi byw ar Ynys Môn ers dros 40 mlynedd ac wedi gweithio fel artist proffesiynol ers dechrau'r 1980au. Mae wedi arddangos yn eang ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys mewn lleoliadau mawr yn Llundain a Chymru, ac mae ei waith i'w weld yng Nghasgliad Cenedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chynulliad Cymru, yn ogystal ag mewn llawer o gasgliadau preifat gan gynnwys casgliad y Brenin Siarl III. Mae wedi darlunio dros 80 o lyfrau ac wedi cyfrannu at fwy na 200 o gyhoeddiadau, gan gynnwys canllawiau mawr Collins. Mae Philip wedi cefnogi achosion cadwraeth yng Nghymru ers tro byd, gan gynnwys y Fenter Cadwraeth Gwiwerod Coch a Gardd Fotaneg Treborth Prifysgol Bangor. Mae ei waith yn parhau i ysbrydoli dealltwriaeth a gofal am fywyd gwyllt a thirweddau.



## Syr Terry Waite KCMG CBE – Doethur er Anrhydedd mewn Diwinyddiaeth (DD er Anrhydedd)

### Dyngarwr ac awdur Prydeinig – am gyfraniad at Wasanaeth Cyhoeddus

Mae Syr Terry Waite KCMG CBE yn ddyngarwr ac yn awdur Prydeinig y mae ei fywyd a'i waith yn adlewyrchu dewrder, tosturi ac ymrwymiad eithriadol i wasanaethu. Am 22 mlynedd bu'n un o staff preifat Archesgob Caergaint a daeth yn adnabyddus am ei waith yn ceisio rhyddhau gwystlon yn y Dwyrain Canol. Cafodd ei gipio yn ystod un genhadaeth o'r fath, a threuliodd bron i bum mlynedd mewn cell ar ei ben ei hun - profiad a luniodd ei eiriolaeth gydol oes dros y rhai yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro. Ar ôl ei ryddhau, cyd-sefydlodd Hostage International a helpodd i sefydlu Emmaus for the Homeless yn y Deyrnas Unedig. Mae gan Syr Terry gysylltiadau cryf â Chymru a Phrifysgol Bangor. Ym mis Mehefin 2025 trafododd ei fywyd, cerddoriaeth a'r celfyddydau gyda Chadeirydd Cyngor y Brifysgol cyn perfformiad y Brifysgol o Breuddwyd Gerontius gan Elgar, sef y darn cyntaf o gerddoriaeth a glywodd ar ôl pum mlynedd yn wystl. Bu hefyd yn cyfrannu ers tro byd i fywyd diwylliannol a dinesig Cymru, gan gynnwys 15 mlynedd yn Llywydd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.

## Llongyfarchiadau, rydych wedi graddio!

Rydych yn awr yn ymuno â'n cymuned amrywiol o gyn-fyfyrwyr sy'n rhagori yn eu gyrfaoedd gyda'r sgiliau a'r gefnogaeth y maent wedi'u derbyn ym Mangor.

Rydych yn rhan o rwydwaith cyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor. Trwy gynnal cysylltiadau gydol oes gyda chyn fyfyrwyr, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo eich llwyddiannau a hwyluso cyswllt rhwng ffrindiau ac adrannau, a chefnogi rhwydweithiau newydd, felly cadwch mewn cysylltiad â ni ar ôl i chi raddio. Mae ein cymuned o raddedigion yn pontio cenedlaethau a chyfandiroedd gyda chyn fyfyrwyr ledled y byd yn cyfarfod a chynorthwyo ei gilydd,  heb iddynt erioed gyfarfod yn ystod eu bywydau fel myfyrwyr yn aml. Rydych yn awr yn aelod o'r rhwydwaith gwerthfawr hwn!

Er mwyn sicrhau eich bod yn rhan o'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr, cofiwch sicrhau bod eich manylion cyswllt cyfredol gennym drwy lenwi ein ffurflen ddiweddaru ar lein a dewis derbyn negeseuon at gyn-fyfyrwyr.

Fel y mae llawer o'n cyn-fyfyrwyr yn dewis gwneud, efallai yr hoffech gyfrannu at Gronfa Bangor i nodi'r graddio heddiw. Mae rhoddion gan gyn-fyfyrwyr yn helpu gwneud gwahaniaeth i brofiad myfyrwyr yn y brifysgol.

Ceir rhagor o fanylion yma:
**bangor.ac.uk/cy/cefnogi/cronfa-bangor**

Sganiwch i optio i mewn i gyfathrebiadau cyn-fyfyrwyr.

# Nid yw'n hwyl fawr!

## Eich cymuned o gyn-fyfyrwyr

Mae'r gymuned gyn-fyfyrwyr yma i'ch cefnogi, eich ysbrydoli a'ch cadw mewn cysylltiad am oes. Fel cyn-fyfyriwr o Fangor, gallwch elwa ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Bangoriad Bach: Rydym yn anfon e-newyddlenni misol i roi'r newyddion diweddaraf i chi o'r Brifysgol, gan gynnwys manylion am aduniadau a digwyddiadau a gwybodaeth am yr ymchwil a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn ein hysgolion a'n colegau.
- Mynediad i'r llyfrgell: gall cyn- fyfyrwyr barhau i gael mynediad i lyfrgelloedd ardderchog y Brifysgol gyda Cherdyn Llyfrgell Cyn-fyfyriwr.
- Gwybodaeth am rwydweithiau a grwpiau cyn-fyfyrwyr, gan gynnwys grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol fel LinkedIn a Facebook.

**I ble fydd eich taith yn mynd â chi?**

**Cadwch mewn cysylltiad a rhannwch eich stori.**

**bangor.ac.uk/cy/alumni**
**alumni@bangor.ac.uk**

## Ehangwch eich dealltwriaeth drwy barhau ar eich siwrne addysg uwch gyda ni

### Astudiaethau Ôl-radd Hyfforddedig

Mae llawer o'n graddedigion yn dewis parhau â'u taith gyda Bangor, gan adeiladu ar y sylfeini rydych yn eu dathlu heddiw.

Mae ein cyrsiau ôl-radd hyfforddedig yn cynnig mynediad i arbenigwyr a chyfleusterau heb eu hail, i'ch helpu chi ddatblygu sgiliau ac ennill cymwysterau.
Gallai myfyrwyr a raddiodd ym Mangor fod yn gymwys i dderbyn gostyngiad o hyd at 20% ar gyrsiau ôl-radd hyfforddedig.

### Rhaglenni ymchwil

Datblygwch eich sgiliau ymchwil ymhlith cyfoedion a darlithwyr sy'n rhannu eich brwdfrydedd dros ehangu dealltwriaeth y byd am eich pwnc.

Sganiwch i ddysgu mwy am ein gostyngiad ôl-radd

# Llwyddiant Myfyrwyr:

## Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

A oeddech yn gwybod y gall graddedigion Prifysgol Bangor ddefnyddio Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd y brifysgol am dair blynedd ar ôl graddio? Gall mynediad at gyngor a gwybodaeth am yrfaoedd fod yr un mor bwysig i chi ar ôl graddio â phan oeddech yn fyfyriwr.

Mae graddio'n garreg filltir gyffrous a phwysig i bawb, bydd y cyfnod ar ôl graddio'n llawn newid, ond gall fod yn heriol hefyd.

Rydym wedi ymrwymo i roi cymorth i chi lwyddo wrth ddechrau eich gyrfa ac nid oes ots ble rydych chi ar y daith. Llwyddiant Myfyrwyr: Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn ymdrin â chynllunio gyrfa, chwilio am swydd a sgiliau ymgeisio, yn ogystal ag amrywiaeth o bynciau eraill i'ch helpu datblygu eich cyflogadwyedd fel un o raddedigion Bangor, trwy'r canlynol:

- Gweithdai a gweminarau
- Mynediad at amrywiaeth eang o adnoddau gwahanol gan gynnwys y Llwybr Llwyddiant Gyrfa
- Sesiynau cefnogi gyrfaoedd galw heibio ar-lein

Gall graddedigion Prifysgol Bangor hefyd fanteisio ar eu cyfrif gyrfaoedd a chyflogadwyedd ar-lein (trwy ein porth ar-lein CyswlltGyrfa), sy'n cynnig llu o offer, adnoddau a chyfleoedd.

Fel un o raddedigion Prifysgol Bangor, y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud i barhau / ailgysylltu â'n gwasanaeth yw mewngofnodi i'ch cyfrif personol ar CyswlltGyrfa Bangor (careerconnect.bangor.ac.uk). Byddwch yn cael gwahoddiad i wneud hyn yn syth ar ôl graddio. Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost personol a bydd eich cyfrif myfyriwr yn troi'n gyfrif newydd.

**"Rhoddodd astudio ym Mhrifysgol Bangor, ynghyd â gweithdai a hyfforddiant cyflogadwyedd, yr hyder a'r sgiliau i mi lwyddo. Gwnaeth fy nghwrs, â'r gefnogaeth gan y Tîm Cyflogadwyedd, fy mharatoi'n dechnegol ac yn broffesiynol. Helpodd y cyfleoedd hyn fi i ddechrau gweithio fel cynorthwyydd cyflogadwyedd a symud ymlaen i fod yn rheolwr project. Cefais fwy na gradd gan Fangor; cefais gymorth gyda fy ngyrfa."**

**Comfort Ugbabe**
**Dadansoddwr deallusrwydd busnes ym Mhrifysgol Caerfaddon**
**Astudiodd: MSc Dadansoddeg Data Busnes (2024)**

